

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013/14

Y Cyngorydd: Lesley Day

Grŵp: Annibynnol

Ward: Garth

Bwriad yr adroddiad blynyddol:

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

Rôl a chyfrifoldebau:

Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Aelod o'r Cyngor, y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol, Tîm Prosiect Bangor a Fforwm Ardal Ogwen.

Gweithgareddau etholaethol:

Byddaf yn derbyn nifer fawr o alwadau ffôn, negeseuon e-bost a llythyrau gan breswylwyr yn gofyn am gyngor a chymorth ar ystod eang o faterion yn amrywio o Gynllunio i Gasglu Ysbwriel.

Rwyf yn mynychu'r Pwyllgor Cynllunio fel aelod lleol pan drafodir unrhyw faterion sy'n ymwneud â ward Garth. Yn ward Garth, rydym wedi medru dylanwadu'n llwyddiannus ar y Comisiwn Dylunio a'r Datblygwyr i beidio â mynd ati i adeiladu pum adeilad saith llawr fel rhan o Wedd 2 cynllun hen safle Iard Gychod Dickies yn ogystal â blociau llety myfyrwyr Bron Derw.

Rwyf wedi trefnu cyfres o weithdai cyhoeddus. Cynhaliwyd noson 'Cyflwyniad i Gynllunio' lle y gwahoddwyd arbenigwyr i ddod atom i siarad am y broses gynllunio – o lunio cais cynllunio i gyfrifoldebau a phwerau eich cynghorwyr lleol, Cyngor Dinas Bangor a Chyngor Gwynedd, yn ogystal â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a sut i gyfrannu ato. Cynhaliwyd sesiynau eraill ar Ddeall Cyfyngiadau a Phosibiliadau Hen Safle Iard Gychod Dickies. Yn dilyn cyfnod ymgynghori diweddaraf Watkin Jones, anfonom ein sylwadau at Grŵp Watkin Jones ac rydym ar hyn o bryd yn aros am eu cynlluniau diwygiedig.

Rwyf wedi bod yn gweithio tuag at ddatrys problemau ar Ffordd y Cariadon, o ran wyneb y ffordd ac o ran diogelwch ei defnyddwyr a cherddwyr yn benodol. Roeddwn yn blês iawn pan wnaeth Cyngor Gwynedd gyflawni gwelliannau ac ail-wynebu Ffordd y Cariadon ym mis Hydref, ac yn falch iawn pan gynhaliwyd Ymgynghoriad Cyhoeddus ar ddulliau eraill posib i ddarparu llwybr diogel i gerddwyr yn sgil Astudiaeth Ddichonolrwydd ac Arolwg Traffig Cyngor Gwynedd.

Byddaf yn aml yn cerdded trwy'r ward ac rwyf wedi cyflawni Arolwg Strydwedd manwl yn Garth; mae'n siomedig fod cyn lleied o arian ar gael pan fo angen atgyweirio cymaint o dyllau a diffygion yn y ffyrdd. Fodd bynnag, mae cael rhestr o'r rhain y gellir ei diweddarau yn ôl y gofyn yn ddefnyddiol.

Rwyf yn aelod o Gynllun Gweithgor Gwastraff ac Ailgylchu Gwynedd sy'n canolbwyntio ar Fangor. Yng Ngarth, ac yn rhai ardaloedd ym Mangor, mae llawer o'r stoc tai wedi cael ei addasu i fod yn Dai Amlfeddiannaeth ar gyfer myfyrwyr ac fe all hyn waethygu materion gwastraff yn arbennig. Rydym yn ceisio gwella'r sefyllfa bresennol o ran gwastraff bwyd, ailgylchu ac ysbwriel ac i gael strydoedd glanach, oherwydd yn y dyfodol agos, yn sgil rheoliadau'r UE, ni fydd modd i ni anfon ein ysbwriel i safleoedd tirlenwi.

Mentrau a gweithgareddau eraill:

Fi yw Cadeirydd Canolfan Gymunedol Garth, lle'r ydym yn darparu dosbarthiadau a gweithgareddau y gobeithiwn sydd o ddiddordeb i bobl leol. Credwn fod hyn hefyd yn darparu'r cyfle i weithio i unrhyw un sy'n darparu dosbarthiadau yn ogystal ag ennill incwm bach i'r Ganolfan. Mae'r Ganolfan yn gweithredu fel canolbwynt i'r Gymuned.

Rwy'n cynrychioli Garth fel aelod o Gyngor Dinas Bangor ac wedi mynychu 13 o gyfarfodydd gan ymddiheuro o dri o'r 17 cyfarfod posib.

Rwy'n cynrychioli Cyngor Dinas Bangor ar Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor.

Fi yw Trysorydd Cymdeithas Efeillio Bangor a Soest. Dros y 40 mlynedd diwethaf rydym wedi cael sawl cysylltiad – mae ysgolion, corau, cynghorau, chwaraeon a grwpiau eraill wedi mwynhau eu profiadau ac wedi gwneud ffrindiau da. Dathlom 40 mlwyddiant y gymdeithas ym mis Medi gan gyfnewid hen ffrindiau a meiri. Rydym yn cynnal llawer o weithgareddau i godi arian pob blwyddyn.

Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:

PWYLLGOR	YN BRESEN NOL
Y Cyngor	4
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	4
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	4
Pwyllgor Safonau	1
Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol	1
Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol	3
Fforwm Ardal Ogwen	2
Fforwm Ardal Gwyrfai	1

Canran Presenoldeb: 83%

Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol isod:

Fforwm Craffu
Ymchwiliad Craffu - Systemau Meddwl a'r Agenda Wledig
Gweithdy Cynllun Strategol
Gweithdy Arbed Arian
Cyfarfodydd ynghylch oriau mynediad i'r anabl yn Stryd Fawr Bangor
Grŵp Prosiect Bangor
Tai Gofal Ychwanegol ar gyfer yr Henoed
Safleoedd Tai - Bangor
Safleoedd Tai CDLI ar y Cyd
Tai Amlfeddiannaeth Cynllunio CDLI ar y Cyd
Ymgynghoriad Ailgylchu a Chompostio
Cyfarfodydd Cynllunio
Ymgysylltu gyda'r Cyhoedd
Gweithgor Protocol Cyfryngau Cymdeithasol

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:

Ysgol Hiracl (Llywodraethwr Ysgol)
Pwyllgor Rheoli Traeth Lafan

Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:

Aelodau / Swyddogion Arweiniol Cefnogi
Aelodau,
Cyfarfodydd Cyfnewid Ymarfer Gogledd Cymru,
Ymddiriedolaeth Brawf Gogledd Cymru

Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:

Corfforaethol
Data Perfformiad yr Awdurdod ac Ysgolion
Llywodraethwyr Ysgolion ac Amddiffyn Plant
Polisi Gosod Tai a Chyfrifoldebau Statudol
Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio
Panel Rhiant Corfforaethol
Ychwanegol
I-pad

Sgiliau Cadeirio Effeithiol

Ymdrin â'r Wasg

Cyfanswm nifer yr oriau: 24